Cabinet Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Cabinet

---

CYFARFOD CABINET RHANBARTHOL: 17 RHAGFYR 2018

Aelodau'r Cabinet Rhanbarthol oedd yn Bresennol:

Y Cyng. Nigel Daniels, Arweinydd	-	Cyngor Blaenau Gwent
Michelle Morris, Rheolwr Gyfarwyddwr	-	Cyngor Blaenau Gwent
Y Cyng. Huw David, Arweinydd	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Darren Mepham, Prif Weithredwr	-	Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyng. David Poole, Arweinydd	-	Cyngor Caerffili
Christina Harrhy, Prif Weithredwr Dros Dro	-	Cyngor Caerffili
Y Cyng. Huw Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Caerdydd
Paul Orders, Prif Weithredwr	-	Cyngor Caerdydd
Y Cyng. Kevin O'Neill, Arweinydd	-	Cyngor Merthyr Tudful
Gareth Chapman, Prif Weithredwr	-	Cyngor Merthyr Tudful
Y Cyng. Peter Fox, Arweinydd	-	Cyngor Sir Fynwy
Paul Matthews, Prif Weithredwr	-	Cyngor Sir Fynwy
Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd	-	Cyngor Casnewydd
Will Godfrey, Prif Weithredwr	-	Cyngor Casnewydd
Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd (Cadeirydd)	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr	-	Cyngor Rhondda Cynon Taf
Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd	-	Cyngor Torfaen
Alison Ward, Prif Weithredwr	-	Cyngor Torfaen
Y Cyng. John Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas, Prif Weithredwr	-	Cyngor Bro Morgannwg

Swyddogion:

Christine Salter	-	Corff Atebol
Liz Weale	-	Corff Atebol
Hrjinder Singh	-	Corff Atebol
Alistair Milburn	-	Effective Communication
Kellie Beirne	-	Swyddog Rheoli Rhaglen y Fargen Ddinesig
Nicola Somerville	-	Swyddog Rheoli Rhaglen y Fargen Ddinesig

Cynrychiolwyr eraill:-

Phil Pugh	-	Swyddfa Archwilio Cymru

Ymddiheuriadau:

Y Cyng. Huw Thomas, Arweinydd	-	Cyngor Caerdydd

DRAFT

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cynghorydd Morgan ei gyfoedion i'r cyfarfod a nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. Datgan Buddiannau

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan i'r holl Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol ar cychwyn yr eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

Doedd dim datganiadau buddiannau ar gyfer y cyfarfod hwn.

3. Cofnodion Drafft y Cabinet Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 08 Hydref 2018

Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Hydref 2018 fel cofnod cywir.

4. Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2017/18

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad ar ran Christine Salter, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, yn ymwneud â Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2017/18 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

PENDERFYNWYD: cytunwyd y byddai'r Cabinet Rhanbarthol yn awdurdodi'r canlynol:

i. Cadeirydd y Cydbwyllgor i lofnodi'r Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiadau Ariannol ar dudalen 10 Atodiad A, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 54 Atodiad A a'r Llythyr Cynrychiolaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017/18 (Atodiad C);

ii. Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor i lofnodi Datganiad Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol ar dudalen 11 Atodiad A;

iii. Cyfarwyddwr y Rhaglen hefyd i lofnodi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 54 Atodiad A a'r Llythyr Cynrychiolaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017/18 (Atodiad C);

iv. Y Corff Cyfrifol i ddisodli'r Datganiad Cyfrifon cyhoeddedig nas archwiliwyd gyda'r Datganiad Cyfrifon archwiliedig terfynol ac i wneud trefniadau ar gyfer yr hysbysiadau cyhoeddus angenrheidiol cyn gynted â phosibl.

5. Cynllun Busnes Blynyddol 2018-19 – Adroddiad Perfformiad Chwarter 2

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad i'w ystyried a'i gymeradwyo ar ran Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymwneud â Chynllun Busnes Blynyddol 2018-19 – Adroddiad Perfformiad Chwarter 2.

PENDERFYNWYD: cytunwyd y bydd y Cabinet Rhanbarthol:

DRAFT

a) Yn nodi cynnydd cyffredinol Chwarter 2 ar gyfer 2018/19, gan gynnwys y sefyllfa yn erbyn y gyllideb Cronfa Fuddsoddi Ehangach a'r dull 'cerdyn sgorio perfformiad' diwygiedig o adrodd;

b) Yn ystyried a chymeradwyo adroddiad perfformiad Chwarter 2;

c) Yn ystyried a chymeradwyo'r Rhaglen Waith ddiwygiedig wedi'i diweddaru gyda phwyslais ar y ffactorau llwyddiant hanfodol ehangach sydd eu hangen i lwyddo. Nodi, heb ystyried diwygiadau o'r fath, yr olygfa allweddol yn ôl i Gynllun Busnes 5 mlynedd presennol y Cytundeb Gweithio ar y Cyd a Chynllun Busnes blynyddol 2018-19;

d) Yn hepgor y cyfyngiad amser a ragnodir yng nghymalau 7.3.1 a 7.3.2 o'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd mewn perthynas â pharatoi, dosbarthu a chymeradwyo'r Cynllun Busnes Blynyddol drafft ar gyfer 2019/20; ac

e) Yn awdurdodi Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno adroddiad perfformiad Chwarter 2 yn ffurfiol, gan gynnwys gwybodaeth ategol i Lywodraethau Cymru a'r DU a rhanddeiliaid eraill yn ôl yr angen, ar ran y Cabinet Rhanbarthol.

6. Sefyllfa Monitro Cyllideb Refeniw'r Cydbwyllgor – Mis 07 2018/19

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad i'w ystyried a'i gymeradwyo ar ran Christine Salter, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, yn ymwneud â Sefyllfa Monitro Cyllideb Refeniw Mis 07 2018/19.

PENDERFYNWYD: cytunwyd y bydd y Cabinet Rhanbarthol:

a) Yn nodi'r gwariant, yr incwm a'r sefyllfa alldro amcangyfrifedig wirioneddol ar gyfer blwyddyn lawn fel yr oedd ar 31 Hydref 2018 (Mis 07), yn erbyn ei Gyllideb Refeniw gymeradwy ar gyfer 2018/19.

7. Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Datganiad o Fwriad

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad i'w ystyried a'i gymeradwyo ar ran Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymwneud â Chynllun Busnes Blynyddol 2018-19 – Adroddiad Perfformiad Chwarter 2.

PENDERFYNWYD: cytunwyd y bydd y Cabinet Rhanbarthol:

i) Yn ardystio cyfeiriad y Bartneriaeth Twf Economaidd Ranbarthol yn datblygu Cynllun Diwydiannol ac Economaidd ar gyfer y rhanbarth; ac

ii) Yn cytuno i gyhoeddi'r Cynllun Diwydiannol ac Economaidd – Datganiad o Fwriad yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

DRAFT

8. Cyngor Busnes Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cynllun Busnes 2018/19

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad i'w ystyried a'i gymeradwyo ar ran Cyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymwneud â Chynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Datganiad o Fwriad.

PENDERFYNWYD: cytunwyd y bydd y Cabinet Rhanbarthol:

a) Yn cymeradwyo Cynllun Busnes cyntaf y Cyngor Busnes Rhanbarthol ar gyfer 2018-19 a gwariant cysylltiedig o £35,000, yn cynrychioli'r cyfraniad sydd ei angen gan y Fargen Ddinesig i gyflawni'r amcanion a osodwyd yn y cynllun.

b) Nodwyd bod £30,000 o'r £35,000 wedi'i gymeradwyo 'mewn egwyddor' fel rhan o Achos Busnes a Buddsoddi MIPIM (Adrodd i'r Cabinet Rhanbarthol ar 24 Medi 2018).

c) Yn cydnabod y rhesymau dros y dull mwy byrdymor hwn a'r angen i adeiladu hyblygrwydd i adolygu cynnydd; ac i'r Cyngor Busnes Rhanbarthol addasu ac ymateb i amodau ansicr.

d) Yn nodi'r ymrwymiad parhaus i gymryd rhan ym MIPIM a'r gwaith sylweddol a chadarnhaol sy'n cael ei wneud i sicrhau bod ganddo bob cyfle o lwyddo.

9. Cynllun Graddedigion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Ystyriodd y Cabinet Rhanbarthol adroddiad i'w ystyried a'i gymeradwyo ar ran y Cynghorydd Debbie Wilcox a Chyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ymwneud â Chynllun Graddedigion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

PENDERFYNWYD: cytunwyd y byddai'r Cabinet Rhanbarthol yn dyrannu £175,000 o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach ar gyfer peilot un mlynedd o Gynllun Graddedigion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd fel y nodir yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cyng. Morgan i'w gydweithwyr am fod yn bresennol a daethpwyd â'r cyfarfod i ben.

DRAFT